Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymgyrch Recriwtio HEO – Benthyg o'r Tu Allan, o Adrannau Eraill y Llywodraeth

Rhagfyr 2020

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 W41799 ISBN digidol: 978-1-80082-575-8

Cynnwys

1 Croeso

2 Cefndir Llywodraeth Cymru

3 Rolau

4 Sut i Wneud Cais

5 Y Broses Dethol a Pharu

6 Telerau Penodi

1 Croeso

Diolch am ddangos diddordeb mewn gweithio i dîm Llywodraeth Cymru.

Ni fu ein hagenda erioed cyn bwysiced, ac mae tirwedd yr hyn sydd angen i ni ei wneud a phwy sydd angen i ni wrando arno wedi newid. Ein nod yw helpu'r Prif Weinidog a Gweinidogion Cymru i adeiladu Cymru decach, fwy cyfartal a gwyrddach. Mae'r pandemig COVID-19 wedi creu heriau newydd a fydd yn parhau hyd y gellir rhagweld. Rydym yn gweithio i baratoi Cymru ar gyfer bywyd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd a datblygu ein ffyrdd ein hunain o gyflawni'r hyn roeddem yn arfer ei wneud mewn partneriaeth â'r UE. Rydym ym mlwyddyn olaf y weinyddiaeth hon ac mae gennym lawer i'w gyflawni cyn yr etholiad fis Mai nesaf.

Mae gweithio mewn tîm yn ganolog i bopeth a wnawn, felly bydd ein swyddi yn addas i bobl sy'n gallu meithrin cydberthnasau cydweithredol cryf â chymysgedd o bobl ar bob lefel. Bydd angen i chi fod yn agored i syniadau o amrywiaeth o ffynonellau, gan feithrin partneriaethau cryf ar draws gwasanaethau cyhoeddus, y trydydd sector, yr undebau llafur a busnesau yng Nghymru. Mae'r Prif Weinidog wedi pennu fframwaith partneriaeth gymdeithasol: sef gweithio gyda'n partneriaid i ddatrys problemau a dod o hyd i atebion i'r heriau sy'n wynebu Cymru. Mae gan Lywodraeth Cymru hanes gwych o weithio mewn partneriaeth â'i hundebau llafur. Rydym yn cefnogi staff i ymuno ag undeb llafur cydnabyddedig a chredwn fod hyn yn ffordd bwysig o sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn y gweithle.

Mae Llywodraeth Cymru yn atebol i bobl Cymru drwy Senedd Cymru. Ein nod yw bodloni safonau uchel o ran tryloywder ac o ran bod yn agored, ynghyd â dangos gonestrwydd, gwrthrychedd, uniondeb ac amhleidioldeb ym mhopeth a wnawn. Ein nod yw creu amgylchedd gwaith cyffrous, cefnogol, amrywiol a heriol, sy'n gallu addasu.

Mae ein Swyddogion Gweithredol Uwch yn cyflawni rôl allweddol yn Llywodraeth Cymru, a disgwylir iddynt weithio'n annibynnol, darparu barn gadarn, dehongli gwybodaeth gymhleth neu sy'n gwrthdaro ar gyfer graddau uwch. Byddant yn cefnogi a datblygu aelodau timau drwy goetsio a mentora, byddant yn rheoli eu gwaith a'u blaenoriaethau eu hunain ac eraill i sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni'n amserol ac i safon.

Yn Llywodraeth Cymru, caiff pob un ohonom ein hysgogi gan y gwerthoedd a nodir yng Nghod y Gwasanaeth Sifil: sef uniondeb, gwrthrychedd, gonestrwydd ac amhleidioldeb. Yn ychwanegol at y cod mae gennym ein gwerthoedd a'n disgwyliadau ein hunain sy'n crynhoi ein 'ffordd Gymreig' o weithio, gan adlewyrchu'r uchelgeisiau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rydym wedi croesawu ffyrdd newydd o weithio a dylech fod â'r gallu i arwain drwy esiampl wrth fabwysiadu arferion gweithio o bell ac arferion gweithio'n hyblyg sy'n addas ar gyfer y byd ar ôl COVID-19.

Rydym yn gweithio'n galed i greu amgylchedd cefnogol a chynhwysol sy'n galluogi'r holl staff i dyfu a pherfformio hyd eithaf eu gallu. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi pob aelod o staff i ffynnu mewn amgylchedd gwaith cynhwysol.

2 Cefndir Llywodraeth Cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru gyllideb flynyddol o oddeutu £18 biliwn, ac mae'n gyfrifol am amrywiaeth o feysydd yn cynnwys iechyd, addysg a sgiliau, yr economi a thrafnidiaeth, ac amaethyddiaeth a'r amgylchedd.

Mae Prif Weinidog Cymru a'i Gabinet yn ffurfio Llywodraeth Cymru ac maent yn gwneud penderfyniadau mewn meysydd cyfrifoldeb datganoledig. Mae Gweinidogion Cymru yn atebol i Senedd Cymru, sef corff deddfwriaethol Cymru sy'n cynnwys 60 o Aelodau etholedig.

Caiff Gweinidogion Cymru eu cynorthwyo gan ryw 5,000 o weision sifil, gydag oddeutu hanner y rhain yn gweithio yng Nghaerdydd, a'r gweddill yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ar draws y wlad. Mae gan Lywodraeth Cymru swyddfeydd bach yn Llundain a Brwsel hefyd, ynghyd â rhwydwaith tramor ar gyfer gwaith masnachu a buddsoddi. Yr Ysgrifennydd Parhaol sy'n arwain Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru ac mae'n atebol i'r Prif Weinidog a Gweinidogion Cymru.

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn werthoedd craidd i Lywodraeth Cymru. Ein nod yw bod yn gyflogwr sy'n esiampl i eraill, a chaiff ein gwaith ei ategu gan: Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Bwrdd, rhwydweithiau amrywiaeth bywiog a gefnogir gan uwch hyrwyddwyr ac sy'n pennu targedau amrywiaeth i wella nifer y grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol (er enghraifft, staff BAME a staff anabl ar bob lefel, a menywod ar lefelau uwch). Rydym wedi ymrwymo i ddefnydd sefydliadol o'r model cymdeithasol o anabledd, ac rydym wedi ymrwymo hefyd i gyflwyno addasiadau recriwtio ac addasiadau yn y gweithle er mwyn sicrhau cydraddoldeb i staff anabl. Yn ddiweddar rydym wedi cyhoeddi ein strategaeth ar Gynhwysiant ac Amrywiaeth mewn Penodiadau Cyhoeddus gan ein bod yn benderfynol o gynyddu amrywiaeth y Byrddau a reoleiddir a'r Byrddau eraill yng Nghymru a'n proses o ddatblygu ein cynllun gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer 2020-2025 sy'n pennu ein gweledigaethau ar gyfer ein cyflogaeth ein hunain.

Etholwyd Llywodraeth Cymru ym mis Mai 2016 a chaiff ein blaenoriaethau eu nodi yn ein Rhaglen Lywodraethu, sef Symud Cymru Ymlaen, a'n Strategaeth Genedlaethol – Ffyniant i Bawb. Ein huchelgais yw creu cenedl hyderus, ffyniannus ac iach, a chreu cymdeithas lle rhoddir tegwch i bawb. Mae oddeutu 25% o'r £1 biliwn a gaiff ei wario gan Lywodraeth Cymru yn dod o drethi Cymru.

Bydd ymadawiad y DU â'r UE ddiwedd mis Ionawr 2020 a'r trafodaethau rhyngwladol dilynol – ynghylch dyfodol perthynas y DU/UE ac ynghylch cytundebau masnach y DU gyda gwledydd eraill – yn arwain at oblygiadau sylweddol ar gyfer Cymru ac ar waith Llywodraeth Cymru. Mae ein perthynas gyfansoddiadol â Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig eraill yn parhau i ddatblygu. Hefyd, fel cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Safonau'r Gymraeg yn berthnasol i Lywodraeth Cymru, ac mae'r rhain yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Gwasanaeth Sifil weithio mewn ffyrdd newydd a gwahanol er mwyn gwella'r gwaith o ddatblygu polisïau a'r gwasanaethau a gaiff eu darparu i bobl Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn sefydliad dwyieithog; cynhyrchir deddfwriaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac mae gan y ddwy iaith statws cyfreithiol cyfartal. Er nad yw sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swyddi hyn, ac er nad yw'n angenrheidiol i chi allu siarad Cymraeg er mwyn gweithio i Lywodraeth Cymru, byddai'r sgiliau hyn yn gaffaeliad mawr. Rhaid i ymgeiswyr ddangos gwerthfawrogiad o ddwyieithrwydd a rhannu ein hymrwymiad i hyrwyddo'r Gymraeg er mwyn sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rydym yn annog ac yn cefnogi staff i ddysgu, datblygu a defnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithle.

3 Y Rolau

Rydym yn chwilio am ystod eang o weision sifil i weithio mewn amrywiaeth o rolau cyffrous ar draws Llywodraeth Cymru.

Bydd y swyddi'n gofyn am wybodaeth, sgiliau a phrofiad ar draws yr ystod eang o nodweddion a phroffesiynau HEO, ond bydd rolau'r swyddi'n amrywio. Byddem yn croesawu ceisiadau gan unigolion ar draws y gwahanol broffesiynau a'r rhai â sgiliau arbenigol neu gyffredinol.

Mae rolau ar gael naill ai ar gyfer cyfleoedd tymor byr (6-12 mis) neu gyfleoedd tymor hir (hyd at ddwy flynedd), a hynny ar sail ran-amser, rhannu swydd neu amser llawn.

Mae cyfleoedd am HEOs i'w cael yn y Grwpiau/Adrannau canlynol:

Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'r Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynghori Llywodraeth Cymru ar bolisïau a strategaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, yn cynnwys Cafcass Cymru.

Mae'r holl rolau yn y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyd-fynd â blaenoriaethau craidd COVID-19 ac maent yn cwmpasu swyddogaethau a gweithgareddau amrywiol, yn cynnwys Swyddfa'r Prif Swyddog Meddygol, Achosion a Digwyddiadau, y Rhaglen Frechu, Polisi Amgylcheddol, Profi Olrhain Diogelu – yn cynnwys Digidol a Chyfathrebu a Marchnata, Polisi Cyfarwyddyd a Chyfyngiadau a'r Gell Cyngor Technegol (TAC).

Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

Mae Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol yn gofalu am ystod o fentrau sy'n cynnwys adeiladu economi gref, datblygu system drafnidiaeth o safon byd a chreu cyflogaeth hynod addysgedig a hynod fedrus yng Nghymru.

Mae'r rolau sydd ar gael yng Ngrŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol yn cyd-fynd ag amrywiaeth o flaenoriaethau craidd, yn cynnwys COVID-19; hanfodion trefniadau pontio'r UE/Brexit, yn ogystal â Pholisïau Statudol Hanfodol neu Raglenni, Gwasanaethau a Swyddogaethau Cyflawni/ Gweithgarwch Busnes Hanfodol.

Mae'r rolau'n cwmpasu swyddogaethau a gweithgareddau amrywiol, yn cynnwys Parodrwydd i Ymadael â'r UE, Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd ôl-UE, Tomenni Glo, Polisi a Chyflawni Busnes a'r Rhanbarthau, Ansawdd Aer, Twristiaeth, Diwylliant, Chwaraeon, Noddi Trafnidiaeth Cymru, Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes, a Llywodraethu.

Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae'r Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfrifol am helpu i greu addysg a gwasanaethau cyhoeddus rhagorol ar gyfer pobl Cymru.

Mae'r rolau sydd ar gael yn y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyd-fynd ag amrywiaeth o flaenoriaethau craidd, yn cynnwys COVID-19, Polisïau Statudol Hanfodol neu Raglenni, Gwasanaethau a Swyddogaethau Cyflawni/Gweithgarwch Busnes Hanfodol, yn ogystal â Chyflawni'r Cynllun Parhad (yn cynnwys y Cytundeb Blaengar).

Mae'r rolau'n cwmpasu swyddogaethau a gweithgareddau amrywiol, yn cynnwys Hawliau Plant, Plant a Theuluoedd, Trais yn erbyn Menywod, Polisi Cyflawnwr Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV), Tai Arloesol, Diogelwch Adeiladau a Diogelwch Cymunedol.

Grŵp yr Ysgrifennydd Parhaol

Mae Grŵp yr Ysgrifennydd Parhaol yn canolbwyntio ar feithrin sefydliad hyderus, galluog a gwydn, yn ogystal â rhoi cyngor proffesiynol i Weinidogion a gweddill y sefydliad.

Mae'r rolau sydd ar gael yng Ngrŵp yr Ysgrifennydd Parhaol yn cyd-fynd â'r flaenoriaeth graidd yn ymwneud â COVID-19.

Mae'r rolau'n cwmpasu cydlynu a pharatoi canllawiau statudol.

Cyfleoedd datblygu a gynigir gan y swyddi

Yn Llywodraeth Cymru cewch gymorth ac arweiniad er mwyn i chi allu meithrin eich sgiliau yn y gweithle. Byddwch yn aelod gwerthfawr o'r tîm o'r diwrnod cyntaf.

Dyma gyfle gwych i greu effaith trwy ddod â'ch gwybodaeth, eich sgiliau a'ch profiad gwerthfawr i adran wahanol yn y llywodraeth.

Ni fydd dyrchafiadau dros dro na dyrchafiadau parhaol ar gael trwy gyfrwng y cyfle benthyg hwn; fodd bynnag, bydd modd i chi feithrin eich gallu a'ch set sgiliau, ennill profiad gwerthfawr ac ehangu rhwydweithiau trwy fod yn rhan o ystod eang o waith hollbwysig, yn cynnwys blaenoriaethau fel ymateb i COVID-19 a threfniadau pontio'r UE.

4 Sut i wneud cais

Cyn gwneud cais am y cyfle hwn, gwnewch yn siŵr eich bod wedi cael cymeradwyaeth/caniatâd gan eich rheolwr llinell i'ch rhyddhau. Ar hyn o bryd, rydym yn gofyn a oes modd i'r ymgeiswyr gael eu rhyddhau naill ai am dymor byr (6-12 mis) neu am dymor hir (hyd at ddwy flynedd). Gofynnir i chi ddatgan diddordeb naill ai mewn cyfle tymor byr, cyfle tymor hir, neu'r ddau, ar y ffurflen gais.

Dylid cyflwyno ceisiadau trwy system ar-lein Llywodraeth Cymru erbyn **11 Ionawr 2021** fan hwyraf.

I wneud cais, gofynnir i chi gofrestru i gael cyfrif ar y system ar-lein gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost. Rydym yn argymell eich bod yn dewis cyfeiriad cyfrif e-bost nad oes gan neb arall fynediad ato, gan mai dyma fydd ein prif ddull o gyfathrebu gyda chi ynglŷn â'r broses ddethol.

Os oes gennych nam a fydd yn eich rhwystro rhag gwneud cais ar-lein, anfonwch e-bost i TimTrawsnewidAD@llyw.cymru i ofyn am fformat arall, neu i ofyn am addasiad rhesymol yn ymwneud â'r nam, er mwyn i chi allu cyflwyno eich cais.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Caiff ceisiadau yn y naill iaith neu'r llall eu trin ar yr un sail.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyflwyno'r templed CV symud ar draws a gynhwysir yn yr hysbyseb swydd. Os na chyflwynwch hwn, ni fydd y cais yn cael ei ystyried.

Gwybodaeth am amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau gweithlu sy'n adlewyrchu'r gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu, ar bob lefel, gan gynnwys y lefelau uchaf. Trwy gasglu'r wybodaeth hon, gallwn weld a ydym yn recriwtio o'r gronfa dalent ehangaf bosibl, a sicrhau bod yr holl grwpiau'n cael eu trin yn deg drwy gydol y broses. Ni chaiff y ffurflen hon ei datgelu i unrhyw un sy'n asesu eich cais. Os nad ydych am ateb cwestiwn penodol, dewiswch yr opsiwn 'gwell gennyf beidio â dweud'. Os bydd unrhyw un o'r cwestiynau heb gael eu hateb, ni fydd modd i chi gyflwyno eich cais.

Problemau technegol ar-lein

Anfonwch e-bost i TimTrawsnewidAD@llyw.cymru.

5 Y Broses Dethol a Pharu

Wrth wneud cais am y cyfle benthyg hwn, byddwch yn cytuno i symud i swydd y cred y Panel Dethol a Pharu yw'r swydd fwyaf priodol i chi. Mae'r Panel yn cynnwys 3 aelod o staff o'r Tîm Trawsnewid AD a Thîm Partner Busnes AD y Grŵp/Adran berthnasol.

Byddwn yn paru pobl (h.y. ymgeiswyr) â swyddi (h.y. swyddi â blaenoriaeth) sy'n cyfateb orau i'ch gwybodaeth, eich sgiliau a'ch profiad a'r dystiolaeth a gynhwysir yn y ffurflen gais, ar sail gofynion y swydd.

Mae tri cham yn perthyn i'r broses dethol a pharu.

Cam 1 – Asesiad sifftio cychwynnol

Bydd y dystiolaeth a gynhwysir yn eich ffurflen gais **templed CV symud ar draws** yn cael ei hasesu ar sail y meini prawf canlynol:

- Llwyddiant blaenorol o reoli eich gwaith a'ch blaenoriaethau eich hun ac eraill i sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni yn amserol ac i safon.

Os bydd y panel o'r farn fod y dystiolaeth yn gymwys yn y maes hwn, bydd eich cais yn symud ymlaen i'r broses baru.

Cam 2 – Ymarfer Paru

Wrth fynd ati i baru, rhoddir blaenoriaeth i'ch canlyniad yn ystod y sifft gychwynnol ynghyd â'r sgiliau, y profiad a'r dystiolaeth a gynhwysir yn y ffurflen gais. Ystyrir hyn oll ar sail y rhestr o rolau â blaenoriaeth.

Mae'r ffurflen gais yn gofyn i chi ddatgan hoff ddewis o ran grŵp/adran, a gofynnir hefyd i chi nodi a oes gennych ddiddordeb mewn maes gwaith craidd â blaenoriaeth e.e. COVID-19 neu drefniadau pontio'r UE. Er y byddwn yn ystyried hyn yn yr ymarfer paru, ni allwn warantu y bydd modd i ni eich paru â'ch hoff ddewisiadau, ond gallwn ddweud na fyddwn yn eich paru â maes y dywedasoch eich bod yn dymuno'i osgoi.

Ymhellach, er y bydd y panel paru yn gwneud pob ymdrech i ddod o hyd i ateb paru addas, ni allwn warantu y bydd unrhyw swydd, neu swydd benodol, yn cael ei chynnig i chi.

Cam 3 – Canlyniadau

Cewch wybod beth fydd y canlyniad trwy gyfrwng y system ar-lein, h.y.:

- **Ni fuoch yn llwyddiannus yn ystod Cam 1 (sifft gychwynnol)**. Ni lwyddasoch i fodloni'r safon sylfaenol ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, ac o'r herwydd ni chewch eich ystyried ar gyfer y broses baru.

- **Buoch yn llwyddiannus yn ystod Cam 1 (sifft gychwynnol) ond ni lwyddwyd i'ch paru â swydd addas yn ystod Cam 2 (paru)**. Byddwch yn cael eich cadw ar restr wrth gefn am gyfnod o 12 mis.
- **Cawsoch eich paru'n llwyddiannus yn ystod Cam 2.** Ni fydd yn rhaid cynnal cyfweliad ffurfiol. Yn hytrach, byddwn yn trefnu sgwrs ragarweiniol anffurfiol gyda'r rheolwr llinell. Ar ôl cael cadarnhad gennych chi a'r rheolwr llinell, bydd y broses Benthyciad o'r Tu Allan yn cychwyn. Rhaid i chi fod ar gael i'ch rhyddhau yn syth, oherwydd ar ôl i chi gael eich paru â rôl disgwylir i chi fynd i'r afael â'r swydd yn ddi-oed. Byddwn yn cysylltu â chi a'ch sefydliad i gytuno ar y trefniadau angenrheidiol.

Ar ôl i chi gael cadarnhad eich bod wedi cael eich paru â swydd, ni allwch wneud cais i gael eich ail-baru â swydd arall neu swydd newydd, ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol. Bydd y panel yn ystyried amgylchiadau o'r fath fesul achos. Fodd bynnag, gallwch wneud cais am swyddi a gaiff eu hysbysebu'n allanol wedyn mewn cystadleuaeth agored.

Os penderfynwch wrthod y cynnig yn ddiweddarach, byddwch yn cael eich rhoi ar y rhestr wrth gefn.

Amserlen ddangosol

Dyddiad cau	**11 Ionawr 2021**
Cam 1 – Asesu	erbyn 18 Ionawr 2021
Cam 2 – Paru	erbyn 1 Chwefror 2021
Cam 3 – Canlyniadau	erbyn 9 Chwefror 2021

Efallai y bydd y dyddiadau uchod yn newid.

6 Telerau Penodi

Cyfleoedd Benthyciad o'r Tu Allan yw'r rhain. Maent ar gael i gyflogeion parhaol Gwasanaeth Sifil y DU (cânt eu recriwtio trwy gyfrwng cystadleuaeth deg ac agored), ar sail 'symud ar draws', ar radd eich swydd barhaol. Bydd y bobl a gaiff eu benthyg o'r tu allan yn trosglwyddo i Delerau ac Amodau Llywodraeth Cymru.

Tâl

Yn achos pobl a gaiff eu benthyg o'r tu allan, cânt eu rhoi ar gyflogres Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod benthyg. Bydd eich cyflog parhaol yn trosglwyddo i'r pwynt agosaf ar raddfeydd cyflog HEO Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, os mai £31,000 yw eich cyflog parhaol presennol, byddwch yn trosglwyddo i bwynt 2 ar y raddfa, sef £32,540.

Ar ôl i chi gael eich paru â phwynt ar y raddfa, byddwch yn symud i fyny'r raddfa gyflog fel y bo'n briodol yn ystod y cyfnod benthyg. Dyddiadau cynyddran Llywodraeth Cymru yw mis Ionawr ar gyfer staff sy'n ymuno â'r sefydliad rhwng 1 Ionawr a 30 Mehefin, a mis Gorffennaf ar gyfer staff sy'n ymuno â'r sefydliad rhwng 1 Gorffennaf a 31 Rhagfyr. Er enghraifft, byddai rhywun sy'n ymuno â'r sefydliad ar 10 Rhagfyr 2020 yn derbyn ei gynyddran ym mis Gorffennaf 2021, ond byddai rhywun sy'n ymuno â'r sefydliad ar 10 Ionawr 2021 yn derbyn ei gynyddran ym mis Ionawr 2022. Byddwch yn dychwelyd i'ch pwynt cyflog neu eich cyflog parhaol ar ôl mynd yn ôl at eich Cyflogwr.

Pwyntiau ar y raddfa	**Ebrill 2020**
1	£30,600
2	£32,540
3	£34,490
4	£37,410

Lwfansau

Os cewch eich paru â rôl a chanddi lwfans proffesiynol, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer talu'r lwfans e.e. cymhwyster proffesiynol penodol, byddwch yn cael y lwfans hwn ar y gyfradd dâl briodol.

Fodd bynnag, os ydych yn cael lwfans proffesiynol ar hyn o bryd gyda'ch cyflogwr presennol, ond os ydych wedi eich paru â rôl lle nad oes angen y sgiliau hynny/rôl nad oes ganddi lwfans proffesiynol, byddwn yn ystyried a ellir cytuno i dalu'r lwfans fel rhan o gytundeb y benthyciad.

Bydd unrhyw lwfansau eraill yn cael eu talu os ydynt yn ymwneud â'r rôl, e.e. Lwfans Defnyddiwr Car Hanfodol.

Trefniadau eraill yn ymwneud â Chyflog

Yn achos trefniadau eraill yn ymwneud â chyflog – fel cynllun aberthu cyflog, Talebau Gofal Plant, trefniadau talu cyflog ymlaen llaw, cynllun Beicio i'r Gwaith neu rywbeth o'r fath – ni ellir eu trosglwyddo fel rhan o gytundeb y benthyciad. Os oes gennych drefniadau o'r fath ar waith gyda'ch cyflogwr presennol, ac os cewch eich paru'n llwyddiannus â swydd yn Llywodraeth Cymru, bydd angen i chi gysylltu â'ch tîm cyflogres eich hun i weld beth ellir ei wneud fel rhan o drefniadau'r benthyciad.

Teithio a Chynhaliaeth

Bydd Llywodraeth Cymru yn ad-dalu'r holl gostau Teithio a Chynhaliaeth perthnasol a ysgwyddir yn benodol ac o angenrheidrwydd gennych chi ac a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru yn ystod y Cyfnod Benthyg neu mewn perthynas â chyflawni'r Gwasanaethau, os cyflwynir tystiolaeth o dreuliau o'r fath yn y cyfryw fodd ag a bennir gan Lywodraeth Cymru o dro i dro.

Gallwch hawlio Teithio a Chynhaliaeth yn ôl cyfraddau safonol Llywodraeth Cymru. Nodir y rhain yn y polisi Teithio a Chynhaliaeth.

Oriau Gwaith

Mae'r swyddi hyn ar gael ar sail ran-amser, rhannu swydd neu amser llawn. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl sy'n gweithio'n rhan-amser, ac os bydd rhywun sydd am weithio'n rhan-amser yn llwyddiannus yn ystod Cam 1, byddwn yn ceisio eich paru â swydd ran-amser neu'n cyflwyno addasiadau cymesur i gyfrifoldebau'r swydd os oes yna bosibilrwydd paru.

Absenoldeb

Bydd gennych hawl i wyliau blynyddol ac amser i ffwrdd yn unol â Pholisi Absenoldeb Blynyddol, Polisi Gwyliau Cyhoeddus a Braint a pholisïau absenoldeb am resymau teuluol Llywodraeth Cymru. Mae gan gyflogeion amser llawn hawl i 31 diwrnod o absenoldeb blynyddol, ynghyd â 10 diwrnod o wyliau cyhoeddus a braint; bydd hyn ar sail pro rata i gyflogeion rhan-amser.

Byddwch yn gymwys i gael tâl salwch, tâl gwyliau ac unrhyw hawliau absenoldeb yn unol â Thelerau ac Amodau Llywodraeth Cymru. Gellir rhoi trefniadau gweithio'n hyblyg ar waith yn unol â Pholisi Oriau Gwaith Llywodraeth Cymru; fodd bynnag, rhaid clirio unrhyw gredyd neu ddiffyg a gaiff ei gronni yn eich adran bresennol cyn i'r cyfnod benthyg gychwyn, a rhaid clirio unrhyw gredyd neu ddiffyg a gaiff ei gronni yn ystod eich cyfnod yn Llywodraeth Cymru cyn i'r cyfnod benthyg ddod i ben.

Pensiwn

Byddwch yn aros yng nghynllun pensiwn y gwasanaeth sifil, oni bai eich bod wedi optio allan o gynllun pensiwn.

Yswiriant budd-dal anaf

Bydd yswiriant budd-dal anaf Llywodraeth Cymru yn berthnasol i chi yn ystod y cyfnod benthyg, a hynny ar gyfer anaf cymwys a fydd yn digwydd yn ystod y cyfnod benthyg.

Perfformiad a Hyfforddiant

Byddwch chi a'r rheolwr llinell yn cytuno ar yr amcanion ar gychwyn y cyfnod benthyg, a bydd adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar adegau y cytunir arnynt. Bydd y rheolwr llinell yn trefnu rhaglen/hyfforddiant cynefino fel y bo'n briodol.

Caiff pawb yn Llywodraeth Cymru eu cynorthwyo i feithrin eu sgiliau a'u galluoedd. Mae hyn yn cynnwys cael mynediad at gyfleoedd dysgu a datblygu. Rydym wedi ymrwymo i Ddysgu a Datblygu a sicrhau bod ein staff yn cael o leiaf 5 diwrnod o ddysgu bob blwyddyn. Mae gennych hawl i wneud defnydd llawn o'r cyfleoedd dysgu a gynigir gan Lywodraeth Cymru trwy gytundeb â'ch rheolwr llinell.

Lleoliad

Mae'r swyddi'n rhai ar gyfer Cymru gyfan a gallwch weithio yn unrhyw un o swyddfeydd Llywodraeth Cymru trwy'r wlad – er, efallai y bydd natur ambell swydd yn golygu y bydd angen i chi dreulio peth amser mewn lleoliadau arbennig. Rydym yn gefnogol i'r arfer o weithio gartref a'r arfer o deilwra patrymau i weddu i amgylchiadau'r unigolyn.

Fel yn achos nifer o adrannau ar hyn o bryd, mae mwyafrif ein cyflogeion yn gweithio gartref o bell. Bydd achosion o deithio i'r swyddfa yn cael eu pennu gan yr anghenion busnes ac unrhyw gyfyngiadau teithio a fydd ar waith ar y pryd. Er gwybodaeth, mae rhai o'n swyddfeydd mwy yn cynnwys: Aberystwyth, Bedwas, Caernarfon, Caerdydd, Caerfyrddin, Llandrindod, Merthyr Tudful, y Drenewydd ac Abertawe.

Gweithio'n Glyfar

Mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i annog arferion Gweithio'n Glyfar. Mae hyn yn golygu canolbwyntio ar sut rydych yn defnyddio eich amser, a ble a sut rydych yn gweithio, er mwyn bodloni'r anghenion busnes yn y ffordd fwyaf cynhyrchiol. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd mawr i'r staff, a'r disgwyl yw y bydd timau yn gweithio gartref am gyfran helaeth o'r amser hyd y gellir rhagweld. Mae gweithio'n glyfar ac yn hyblyg yn dod yn nodwedd barhaol ar ein bywyd gweithio yng Nghymru, a bydd Llywodraeth Cymru yn arwain y ffordd yn hyn o beth. (Yn y tymor byr, bydd mwyafrif y deiliaid swyddi yn gweithio gartref.)

Gwrthdaro buddiannau

Dylai'r ymgeiswyr nodi bod yn rhaid iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau a allai arwain at gwestiynau ynglŷn â'r ffordd maent yn ymdrin â busnes Llywodraeth Cymru.

Rhaid iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau busnes perthnasol, cyfranddaliadau, swyddi mewn awdurdod, taliadau cadw, trefniadau ymgynghori neu gysylltiadau eraill â chyrff masnachol, cyhoeddus neu wirfoddol, o'u rhan eu hunain ac o ran eu gŵr/gwraig/partner.

Bydd yn rhaid i'r ymgeiswyr llwyddiannus roi'r gorau i unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro, ac mae'n bosibl y caiff eu buddiannau busnes ac ariannol eraill eu cyhoeddi.

Amrywiaeth a Chydraddoldeb

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau sy'n croesawu amrywiaeth ac sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal. Ein nod yw sicrhau bod yr ymrwymiadau hyn yn cael eu hymwreiddio yn ein harferion gwaith o ddydd i ddydd gyda'n cwsmeriaid, ein cydweithwyr a'n partneriaid i gyd. Mae gan y Bwrdd Hyrwyddwr Cydraddoldeb, a chaiff yr hyrwyddwr hwn diweddariadau rheolaidd yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth.

Rydym wedi ymrwymo i gynyddu amrywiaeth, gan ddileu rhwystrau a chefnogi ein holl staff i gyflawni eu potensial. Ar hyn o bryd, rydym yn 8fed ar restr Stonewall o 100 cyflogwr gorau'r DU. Rydym yn un o Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall, yn sefydliad Hyderus o ran Anabledd ar Lefel 3 (Arweinydd), a llwyddasom i ennill statws aur a:gender yn 2018.

Mae pedwar o Rwydweithiau Staff, a noddir gan y Bwrdd, yn allweddol o ran ategu'r gwaith hwn a rhoi cymorth i gymheiriaid – sef Ymwybyddiaeth a Chymorth Anabledd (DAAS); Rhwydwaith Staff o Leiafrifoedd Ethnig (MESN); PRISM (Pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol, rhyngrywiol +) a Menywod Ynghyd.

Cwynion

Dylai pwy bynnag sydd o'r farn eu bod wedi'u trin yn annheg, neu sydd â chwyn ynglŷn â'r modd y cynhaliwyd y broses, ysgrifennu at y Pennaeth Adnoddau, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays 2, Caerdydd CF10 3NQ neu anfon e-bost i TimTrawsnewidAD@llyw.cymru. Os ydych yn anfodlon â chanlyniad y gŵyn a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, ac os teimlwch na chafodd yr egwyddorion 'penodi ar sail teilyngdod trwy gyfrwng cystadleuaeth deg ac agored' eu bodloni, mae gennych hawl i fwrw ymlaen â'ch cwyn gyda Chomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn y cyfeiriad canlynol: 3rd Floor, 35 Great Smith Street, London SW1P 3BQ.